WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2010

Awdur: Andrew Doughton

Cyf: 450A2010

# Arlwyo a Maeth mewn Ysbytai

# Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Mae'r Bwrdd Addysgu Iechyd (BAI) wedi dangos nifer o arferion da cydnabyddedig, ond mae lle i wella rhai meysydd, fel cymorth i gleifion ar wardiau, cael adborth gan gleifion a rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**<br>Mae'r dull arlwyo strategol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwasanaeth o safon gyson; fodd bynnag, mae yna heriau cymhleth i'w hwynebu yn y dyfodol ac mae angen fframwaith maeth ac arlwyo ehangach bellach | 8 |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**<br>Mae trefniadau caffael a chynhyrchu wedi'u cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y claf a'r BAI, ond mae'r trefniadau rheoli costau cysylltiedig yn annigonol | 11 |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward**<br>Mae'r BAI yn darparu bwyd sydd fel arfer yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da, er y gallai newid rhai arferion presennol wella profiadau cleifion | 22 |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**<br>Mae ansawdd y broses asesu maeth yn gyson ar y cyfan ac mae'n nodi'r cleifion hynny sydd mewn risg, ond mae effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer maeth a chymorth yn ystod amserau bwyd yn amrywio'n sylweddol o un ward i'r llall | 29 |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth**<br>Er bod yna nifer o ddulliau da ar gyfer casglu adborth gan grwpiau rhanddeiliaid a staff, mae lle i wella'r dull o gael adborth gan gleifion | 33 |
| **Atodiadau** | |
| Y dull archwilio | 36 |
| Profiad cleifion | 38 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Addysgu Iechyd Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion ac mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu nifer o brosesau'n drwyadl gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chynorthwyo cleifion amser bwyd. Rhaid cael cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n rhan o'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai'r canlyniad fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau bwyd maethlon i ateb gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwyta a mwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.
3. Mae pwysigrwydd bwyd ysbyty i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad. Y fenter ddiweddaraf yw Llwybr Gofal Maeth Ysbytai a datblygiad siartiau cofnodi bwyd Cymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod. Hefyd, cafwyd rhaglen hyfforddi *Gwella Gofal Maethol* i bob rheolwr ward. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi menter *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys wardiau i gael mwy o reolaeth ar ddigwyddiadau ar eu wardiau. Caiff arferion gorau mewn gofal maeth eu gwreiddio ymhellach drwy Safonau Gofal Iechyd penodol ac offeryn archwilio lefel y ward, *Hanfodion Gofal*.
4. Er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da'n gysylltiedig ag arlwyo mewn ysbytai, dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02 fod angen ailadrodd y rhain yn ehangach a chryfhau arferion mewn nifer o feysydd. Ers hynny, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau parhaus gyda gwastraffu bwyd – gadawyd tua 880,000 o brydau heb eu cyffwrdd yn 2008-09. Awgrymodd data Stadau Iechyd Cymru hefyd fod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig, fel amser bwyd wedi'i ddiogelu a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.
5. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu felly ei bod hi'n bryd cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ac i archwilio i ba raddau y mae arferion a nodwyd yn Llwybr Gofal Maeth Ysbytai yn cael eu cyflwyno.
6. Ceisiodd ein hadolygiad bennu a oedd ysbytai yng Nghymru'n darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbyty o'r gwaith cynllunio a chaffael i ddosbarthu'r bwyd i'r ward a rheoli amser prydau bwyd.

7. Mae ein gwaith gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (y BAI) wedi cynnwys gwaith maes yn Aberhonddu, Llanidloes, Llandrindod, Ystradgynlais, Bronllys a'r Trallwng. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â wardiau ar y safleoedd canlynol:

- Llanidloes
- Llandrindod
- Ystradgynlais
- Y Trallwng

8. Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ariannol yn ymwneud â'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion a rhai nad ydynt yn gleifion, a hefyd ar arolygon cleifion sy'n crynhoi eu profiad o fwyd ysbyty. Darperir manylion pellach am y dull archwilio yn Atodiad 1.

9. Daethom i'r casgliad cyffredinol fod y BAI yn dangos nifer o arferion da cydnabyddedig, ond mae lle i wella rhai meysydd, fel cymorth i gleifion ar wardiau, cael adborth gan gleifion a rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r dull arlwyo strategol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwasanaeth o safon gyson; fodd bynnag, mae yna heriau cymhleth i'w hwynebu yn y dyfodol ac mae angen fframwaith maeth ac arlwyo ehangach bellach;
- mae trefniadau caffael a chynhyrchu wedi'u cynllunio'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion y claf a'r BAI, ond mae'r trefniadau rheoli costau cysylltiedig yn annigonol;
- mae'r BAI yn darparu bwyd sy'n cyrraedd y ward mewn cyflwr da fel arfer, er y gellid gwella profiad cleifion drwy newid rhai arferion presennol;
- mae'r broses asesu maeth yn gyson ar y cyfan ac mae'n nodi'r cleifion hynny sydd mewn risg uchel, ond mae effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer maeth a chymorth yn ystod prydau bwyd yn amrywio'n fawr o un ward i'r llall; ac
- er bod yna nifer o ddulliau da ar gyfer casglu adborth gan grwpiau rhanddeiliaid a staff, mae lle i wella'r dull o gael adborth gan gleifion.

10. Wrth ffurfio'r casgliadau hyn, nodwyd bod y gwasanaeth arlwyo a'r ffordd y mae BAI yn darparu ei wasanaethau yn cynnwys nifer o gryfderau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae'r dull strategol cyfredol ar gyfer arlwyo wedi diwallu anghenion y gorffennol a'r anghenion cyfredol. Fodd bynnag, nid oes fframwaith strategol i baratoi ar gyfer materion a chyfleoedd y dyfodol, fel gwella'r gwasanaethau maethol, ymateb i bwysau ariannol a'r gwerth am arian cysylltiedig, neu integreiddio â Chyngor Sir Powys.
- Mae yna drefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith.
- Mae'r amgylchedd cynhyrchu bwyd yn ddiogel, yn lân, yn addas i'r diben ac yn cael ei staffio'n briodol fel arfer.
- Mae'r BAI wedi gwneud cynnydd o ran gwella proses ansawdd cyson ers cyflwyno'r system gymysg, ac mae'r dulliau hyn yn cael eu dilyn yn gyson fel arfer, ond nid bob amser.

- Mae safon y bwyd yn dda ar y cyfan, gyda'r fwydlen wedi'i chynllunio i sicrhau effeithlonrwydd gweithredol ac i ddiwallu anghenion maeth cleifion y BAI.

11. Mae nifer o feysydd allweddol y gellid eu gwella gan gynnwys y canlynol:
    - Yn ystod yr adolygiad a gynhaliwyd yn Ysbyty Coffa Victoria yn y Trallwng, nodwyd nifer o faterion a oedd eisoes wedi'u cydnabod gan y BAI. Er bod yna gynllun gwelliant ar waith, ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion hyn.
    - Nid yw Gwybodaeth Ariannol y Gwasanaeth Arlwyo'n ddigon da i gynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â chost cymhorthdal prydau bwyd staff, costau arlwyo corfforaethol a chost gwastraff bwyd.
    - Nid oes yna drefniadau cyson ar gyfer amser bwyd wedi'i ddiogelu. Er bod Llandrindod yn cadw at amser bwyd wedi'i ddiogelu'n effeithiol tu hwnt, nid oedd safleoedd eraill yn gwneud hynny cystal, yn arbennig yn y Trallwng; o ganlyniad, nid oedd rhai cleifion yn cael digon o gymorth yn ystod amserau bwyd.
    - Mae'r trefniadau i gynorthwyo'r gwaith o baratoi cleifion, gweini a chynorthwyo yn ystod amser bwyd yn amrywio o un ward i'r llall. Gall hyn arwain at ddiffyg maeth mewn cleifion mewn rhai mannau a'r angen am fwy o fitaminau atodol. Wrth i ni arsylwi yn Llandrindod, gwelwyd gofal cydgysylltiedig a chydlynol da iawn a oedd yn canolbwyntio ar y claf yn ystod amserau bwyd.
    - Mae lle i wella'r amrywiaeth o fwydydd/byrbrydau sydd ar gael rhwng prydau a thros nos. Efallai fod rhai cleifion am fwyta llai o fwyd yn amlach. Gallai hyn fod yn broblem arbennig o ystyried yr amser rhwng y pryd bwyd nos a brecwast a hefyd i unrhyw un a dderbynnir i'r ysbyty yn ystod min nos.

12. Mae'r adroddiad manwl sy'n dilyn yn rhoi mwy o wybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliad a arweiniodd at y casgliadau a nodwyd uchod. Mae pob adran o'r adroddiad manwl yn nodi'r arfer da yr edrychai'r archwilwyr amdano wrth gyflawni eu gwaith maes, a'r hyn a welwyd ar waith. Hefyd, ceir gwybodaeth am yr arferion a welwyd ar wardiau unigol yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad.

## Argymhellion

13. Mae nifer o argymhellion wedi codi o'r adolygiad hwn. Cânt eu rhestru isod:

| | |
|---|---|
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | |
| A1 | Datblygu cynllun maeth ac arlwyo newydd erbyn Mawrth 2011 a fydd yn bodloni gofynion strategol y BAI yn y dyfodol. Dylai'r cynllun hwn:<br>• ymateb i'r pwysau ariannol, nawr ac yn y dyfodol;<br>• nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio'n integredig gyda Chyngor Sir Powys, o ran darparu gwasanaeth arlwyo ac o ran asesu maeth a chynorthwyo yn y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ehangach; a<br>• rhoi mwy o sylw i ddiwallu anghenion maeth cleifion, yn arbennig cleifion mewnol hirdymor a chleifion BAI Powys a drosglwyddir o ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i'r sir. |
| A2 | Dechrau rhoi'r Cynllun Gwella Arlwyo ar waith yn y Trallwng erbyn mis Hydref 2010. Adolygu'r galw am staff arlwyo yn erbyn y cyflenwad er mwyn gweld a ellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A3 | Datblygu trefniadau rheoli perfformiad ac ariannol ar gyfer arlwyo a maeth erbyn Ionawr 2011. Dylai'r trefniadau:<br>• gynnwys systemau effeithlon ac addas i'r diben i adrodd ar ansawdd y gwasanaeth arlwyo ac amserau bwyd sy'n cynnwys safbwyntiau uniongyrchol y cleifion ac adolygiadau mewnol gan gymheiriaid; a<br>• chynnwys prosesau rheoli costau ac ariannol sylfaenol i alluogi monitro, rheoli ac adrodd ar y rhestr stoc, cost wirioneddol y nwyddau a ddefnyddiwyd, a'r galw am staff ar sail gweithgarwch yn erbyn cyflenwad. |
| A4 | Penderfynu ar y dull o ymdrin â chymhorthdal a phris prydau bwyd staff erbyn Tachwedd 2010. |
| R5 | Sicrhau bod y gwaith o weithredu'r system TG arlwyo yn cael ei gyflwyno fel prosiect ffurfiol a bod cynrychiolwyr amlddisgyblaethol priodol yn cymryd rhan fel bod y system yn:<br>• cynorthwyo'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth gweithredol yn effeithiol ac effeithlon;<br>• darparu ffordd well o archebu i gleifion er mwyn diwallu eu hanghenion maeth; ac yn<br>• gwella deallusrwydd/gwybodaeth rheolwyr a'u prosesau adrodd. |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | |
| A6 | Sicrhau bod amser bwyd yn cael ei ddiogelu a bod cymorth effeithiol ar gael i gleifion yn ystod amserau bwyd ar bob safle erbyn Ionawr 2011. |
| A7 | Gwella'r amrywiaeth o fwyd sydd ar gael y tu allan i oriau arferol, a sicrhau bod stoc bwyd yn cylchdroi rhwng y ward a stoc y brif gegin er mwyn cyfyngu'r gwastraff o fwyd erbyn Ionawr 2011. |

## Trefniadau rheoli a chynllunio strategol

14. Mae'r dull arlwyo strategol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwasanaeth o safon gyson; fodd bynnag, mae yna heriau cymhleth i'w hwynebu yn y dyfodol ac mae angen fframwaith maeth ac arlwyo ehangach bellach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae trefniadau'r BAI ar gyfer cynllunio ei wasanaeth arlwyo yn seiliedig ar achos busnes a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn 2007. O ganlyniad, mabwysiadwyd model cymysg o rewi a choginio confensiynol a gynlluniwyd er mwyn cael prosesau a safon bwyd ffurfiol ar draws y BAI.
- Roedd y dull cymysg yn canolbwyntio'n bennaf ar arlwyo, er ei fod wedi cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau meddygol gwahanol wrth ei roi ar waith. Er bod y trefniadau hyn yn diwallu anghenion cyfredol BAI Powys, bydd yn wynebu nifer o heriau cymhleth yn y dyfodol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys pwysau ariannol, cyfleoedd i wella maeth cleifion, arbedion effeithlonrwydd a gwaith mwy cydgysylltiedig gyda Chyngor Sir Powys a rhanddeiliaid eraill.
- Ychydig iawn o reolaeth uwch parhaus a gwaith craffu gan y bwrdd a gafwyd yn y maes arlwyo erioed. Mae yna le i wella'r wybodaeth mae'r Bwrdd yn ei derbyn am berfformiad gwasanaethau arlwyo.

15. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 1: Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio gwasanaeth** | | |
| Mae gan y BAI strategaethau a pholisïau clir ar arlwyo a maeth | **Yn rhannol** | Nid oes unrhyw fframwaith trosfwaol ar gyfer maeth ac arlwyo, er bod y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn awyddus i sefydlu un. Mae dull cyflwyno'r gwasanaeth yn seiliedig ar achos busnes gwasanaeth arlwyo 2007 a gaiff ei gefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio gwasanaeth (parhad)** | | |
| Mae cynllun y fwydlen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi | ✓ | Mae'r fwydlen gyfredol yn rhedeg ar gylch 21 diwrnod ac mae'n darparu dewis amrywiol bob dydd, er ei fod yn ddewis cyfyngedig. Mae hwn yn benderfyniad bwriadol gan yr adran arlwyo i leihau gwastraff bwyd posibl.<br>Darperir y prif brydau bwyd gan Apetito a chânt eu hasesu o ran maeth. Darperir eitemau eraill ar y fwydlen, gan gynnwys cawl a phwdinau gan wasanaethau arlwyo'r BAI. Er bod cynnwys y cawl wedi'i asesu o ran maeth, nid yw'r elfennau eraill a ddarperir gan y staff arlwyo wedi'u hasesu. |
| Mae deietegwyr a chlinigwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth a chynllunio bwydlenni | ✓ | Y model arlwyo cyfredol, sy'n seiliedig ar gynllun busnes 2007, a oedd yn cynnwys ymgynghori a chysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid wrth ddatblygu'r gwaith o arlwyo a chynllunio bwydlenni.<br>Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gwasanaethau deieteg ac arlwyo wedi gweithio gyda'i gilydd i helpu i sicrhau bod cynllun y fwydlen yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau cleifion. Yn fwy diweddar, mae therapyddion iaith a lleferydd wedi cyfrannu at ddiwygio'r fwydlen ymhellach. |
| Mae'r Strategaeth yn nodi'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gynhyrchu bwyd | ✓ | Model cymysg yw dull y BAI sy'n seiliedig ar rewi a choginio prif brydau bwyd a gyflenwir gan Apetito a choginio seigiau ochr, cawl a rhai pwdinau'n ffres. Mae'r model hwn a'r fwydlen yr un peth ar draws y BAI. Mae'r dull hwn yn gofyn am lai o amser staff ac mae'n gwella cysondeb y cynhyrchu.<br>Nododd y BAI fod y dull cymysg yn lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â darparu amrywiaeth o brydau bwyd i nifer bychan o gleifion. Mae'r dystiolaeth anecdotaidd hefyd yn awgrymu bod y dull yn galluogi'r staff gynnal eu sgiliau coginio trwy baratoi rhywfaint o'r bwyd yn ffres. |
| Tystiolaeth o gynllunio gweithlu yn ôl y galw am staff arlwyo | ✓ | Nid oes unrhyw gynllunio gweithlu dynamig, ac mae'r trefniadau wedi'u seilio ar achos busnes gwreiddiol 2007. Dim ond hyn a hyn o arbedion maint y gellir eu cyflawni oherwydd nad oes llawer iawn o gleifion yn yr ysbytai.<br>Nid yw cost prydau bwyd y staff yn cynnwys cost y gwaith arlwyo; mae yna le i leihau costau gwaith neu i'w hadennill o fewn y polisi prisio. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae atebolrwydd gweithredol dros arlwyo wedi'i nodi'n glir | ✓ | Nodwyd yn glir mai Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Nyrsio (EDNS) yw'r aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am faeth a'r gwasanaeth arlwyo. Mae'n awyddus i ddatblygu fframwaith maeth ac arlwyo sy'n cwmpasu'r system gyfan, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau sefydliadol cyfredol. |
| Mae'r Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth am berfformiad ac ymarfer mewn perthynas ag arlwyo a maeth | ✗ | Ychydig iawn o wybodaeth reolaidd y mae'r Bwrdd yn ei derbyn am berfformiad arlwyo a'r sefyllfa ariannol. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r modd y mae'r gwasanaeth arlwyo yn cael ei gyflawni | ✓ | Mae'r grŵp arlwyo a maeth yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys y BAI cyfan.<br>Cynhelir cyfarfodydd tîm arlwyo misol hefyd ar bob safle i ddiwygio ffyrdd o weithio a gwella ansawdd. Mae'r rhain yn lled-effeithiol. |
| Penodwyd nyrs arwain i helpu i weithredu'r strategaeth a sicrhau arferion maeth da | ✓ | Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio'n awyddus i fwrw ymlaen i ddatblygu strategaeth maeth ac arlwyo ehangach, yn ogystal ag edrych ar weithredu safonau cenedlaethol. Pennwyd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol i fod yn gyfrifol am hyn. |
| Mae disgrifiadau swyddi ac ystod cyflogau i staff arlwyo wedi'u cysoni ledled y BAI | ✓ | Fel rhan o'r agenda ar gyfer newid a'r gwaith o weithredu'r model arlwyo cymysg, mae disgrifiadau swydd wedi'u cysoni. Mae yna rai gwahaniaethau bach yn dal i fodoli rhwng rhai rolau, er enghraifft, lle gweithredwyd system blatiau gan y BAI. Mae'r Rheolwr Arlwyo a Chyfleusterau wrthi'n safoni a chysoni'r dulliau ar hyn o bryd. |
| Mae lefel absenoldebau oherwydd salwch ymhell o fewn y lefelau derbyniol ac yn cael eu rheoli'n dda | ✓ | Nododd y rheolwyr arlwyo nad oedd absenoldebau salwch yn broblem ac mae'r polisïau cyfredol yn cynorthwyo'r gwaith o'u rheoli'n effeithiol. |

## Caffael, cynhyrchu a rheoli costau

16. Mae trefniadau caffael a chynhyrchu wedi'u cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y claf a'r BAI, ond mae'r trefniadau rheoli costau cysylltiedig yn annigonol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae trefniadau caffael y BAI yn cefnogi cadwyn gyflenwi'r gwasanaeth arlwyo, ond nododd staff arlwyo ar nifer o safleoedd bryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan Gyflenwadau Iechyd Cymru. Roedd hyn yn eu gorfodi, ar brydiau, i gael gafael ar ddarpariaethau gan gyflenwyr drutach er mwyn cynnal y gadwyn gyflenwi a darparu prydau bwyd.
- Mae'r BAI wedi dod i drefniant ar y cyd â Chyngor Sir Powys i ddarparu ffrwythau, llysiau, llaeth a bara ffres. Mae hyn yn cynnwys ystod o gyflenwyr rhanbarthol sy'n amrywio yn ôl lleoliad daearyddol y safle sy'n archebu.
- Roedd gan geginau lefel briodol o fwydydd wedi'u rhewi a bwydydd ffres a nwyddau sych, ond roedd gan un safle ormod o brydau bwyd Apetito. Roedd gan y mwyafrif o'r safleoedd gydbwysedd priodol rhwng y pecynnau wyth dogn a dau ddogn, ac roeddent yn sicrhau bod y gymysgedd fwyaf economaidd ac effeithlon o gynnyrch yn cael ei defnyddio.
- Ar hyn o bryd, mae'r drefn o reoli stoc at ddibenion archebu wedi'i seilio ar system bapur â llaw ac ni ddefnyddir rhestr stoc reoli'n rheolaidd ar unrhyw safle. O ganlyniad, mae costau'n cael eu rheoli o gan yr hyn sydd wedi'i archebu yn hytrach na'r hyn sydd wedi'i ddefnyddio.
- Mae'r BAI wrthi'n gosod y system TG Menumark ar hyn o bryd a ddylai wella'r gwaith o reoli costau, cynorthwyo'r gwasanaeth arlwyo i gyflenwi bwyd a darparu gwybodaeth i reolwyr. Fodd bynnag, bydd effeithiolrwydd y system yn dibynnu ar adnoddau a chymorth prosiect priodol.
- Mae'r gwaith o gynhyrchu'r bwyd wedi'i gynllunio fel proses ansawdd ddiogel a chyson. Mae'r ceginau'n lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u cynllunio'n dda ar y cyfan.
- Dangosodd ein dadansoddiad o ddata ariannol System Reoli Perfformiad yr Ystadau a'r Cyfleusterau fod yna gymhorthdal o £73,000 ar gyfer prydau bwyd staff. Yn ogystal â hyn, mae darpariaethau'n costio llawer mwy ym Mronllys nag ar safleoedd tebyg eraill y BAI.

17. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 2: Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Mae'r bwyd yn cael ei gaffael gan gyflenwyr a gymeradwywyd, yn unol â threfniadau a nodwyd yn Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan y GIG | ✓ | Mae'r gwasanaethau arlwyo yn defnyddio contractau Cymru gyfan Cyflenwadau Iechyd Cymru (CIC) ar gyfer y rhan fwyaf o nwyddau, ond mae'r BAI wedi sefydlu contract ar y cyd gyda Chyngor Sir Powys yn ddiweddar i gael cyflenwadau ffres.<br>Mae gwasanaethau'r cyflenwyr yn addas i'r diben ar y cyfan, ond mynegodd staff bryder ynghylch ansawdd gwasanaeth CIC. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith | **Yn rhannol** | Nid yw'r BAI wedi sefydlu polisi caffael cynaliadwy ei hun, ac nid yw wedi cyrraedd lefel 3 Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy Sector Cyhoeddus Cymru eto.<br>Mae'r caffael ar y cyd â Chyngor Sir Powys wedi dewis ystod o gyflenwyr rhanbarthol sy'n amrywio yn ôl lleoliad y safle.<br>Caiff y deunydd pacio ffoil ar gyfer prydau bwyd Apetito ei ailgylchu trwy drefniadau a wneir gyda Chyngor Sir Powys. |
| Mae'r trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd | ✓ | Mae'r BAI wedi cyflwyno trefniadau caffael effeithiol i gefnogi cyflwyniad bwydlen a gynlluniwyd mewn cylch o 21 diwrnod. Fel y bwriadwyd, ceir rhywfaint o amrywiaeth lleol er mwyn caniatáu i safleoedd unigol addasu'r gymysgedd rhwng bwyd ffres a bwyd wedi'i rewi a nwyddau sych, yn arbennig mewn prydau bwyd staff.<br>Caiff bwyd ei archebu ar gyfnodau priodol er mwyn darparu digon o fwyd o ansawdd da yn gyson, galluogi cylchdro stoc a chyfyngu'r gwastraff a ddaw yn sgil bwyd sy'n darfod. |
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae'r BAI yn gweithredu system arlwyo gyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith o gynllunio a rheoli cynhyrchiant. | ✗ | Nid oes system gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae absenoldeb system arlwyo'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd y wybodaeth i reolwyr a'r gallu i reoli'r rhestr stoc, y gwerthiannau a'r gwariant yn gywir. Fodd bynnag, mae BAI Powys wedi archebu ac wedi dechrau rhoi systemau Menumark ar waith. Aberhonddu fydd y cyntaf o saith safle i gael y system. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu (parhad)** | | |
| Mae cleifion yn archebu prydau lai na 24 awr ymlaen llaw | **Yn rhannol** | Y drefn arferol yw i gleifion archebu prydau bwyd 24 awr ymlaen llaw. Proses â llaw yw hon sy'n defnyddio bwydlenni ar bapur a roddir i'r cleifion, gyda'r nyrsys yn cynorthwyo cleifion i archebu, lle bo angen.<br>Roedd Ystradgynlais yn gweithredu system archebu 48 awr ac, wrth arsylwi, gwelwyd fod hyn yn achosi anawsterau gweithredol, gyda chlaf a dderbyniwyd y diwrnod cynt yn derbyn y pryd bwyd anghywir. Mabwysiadwyd y dull hwn gan Ystradgynlais gan nad oedd staff y wardiau'n gallu cymryd archebion ar amser a fyddai'n rhoi digon o rybudd i'r gegin eu paratoi.<br>Gall pob safle dderbyn archebion dirybudd i gleifion a gallant gynhyrchu bwyd o fewn dwy awr o rybudd. Gall y ceginau gynhyrchu bwyd ynghynt, ond ychydig o ddewis fydd ar gael. Mae rhai darpariaethau, fel bara a jam, ar gael yn ystod y nos. |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost | ✓ | Mae Apetito'n cynhyrchu bwyd i'w safonau diwydiannol ei hun gan ddefnyddio ryseitiau wedi'u costio a maint dognau safonol. Mae Apetito'n swmp-brofi ei gynhyrchion ac yn gwneud gwerthusiadau a phrofion blasu rheolaidd. Mae eitemau eraill ar y fwydlen, fel cawl, yn dilyn ryseitiau safonol, ond ceir ychydig o amrywiaeth lleol wrth ei gynhyrchu.<br>Ar wahân i brif brydau bwyd Apetito, mae ceginau gwahanol yn defnyddio cymysgedd wahanol o fwyd wedi'i rewi a bwyd ffres. Gall gorddibynnu ar lysiau wedi'u rhewi effeithio ar ymddangosiad, blas ac ansawdd cyffredinol y bwyd. |
| Mae cynllun cynhyrchu ar waith i gyfeirio tasgau'r gegin | ✓ | Mae'r BAI wedi datblygu amrywiaeth o ddogfennau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio rhan o'r cynllun cynhyrchu. Mae'r HACCP yn nodi system bedair llinell ar gyfer eitemau bwyd gwahanol. Defnyddir taflenni crynhoi cynhyrchiad i bennu'r nifer angenrheidiol a gofynion coginio cynnyrch. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu (parhad)** | | |
| Mae mesurau rheoli dognau ar waith ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant | ✓ | Mae'r gwaith o reoli dognau'n amrywio o un safle i'r llall; ar rai safleoedd, nid oedd dulliau o reoli dognau'n effeithiol. Roedd Llandrindod yn rheoli dognau'n dda iawn ac roedd hyn yn gysylltiedig ag anghenion maeth ac archwaeth cleifion. |
| Mae ansawdd bwyd yn cael ei fonitro ar gamau allweddol yn y broses gynhyrchu | ✓ | Caiff ansawdd y bwyd ei fonitro a'i brofi:<br>• gan Apetito wrth ei gynhyrchu;<br>• gan staff arlwyo'r BAI wrth ei ail-baratoi; ac<br>• yn y rhan fwyaf o achosion, gan staff wardiau wrth weini, ond nid yw hyn yn drefniant ffurfiol.<br>Mae tystiolaeth i ddangos fod y gwasanaeth pryd bwyd ar blatiau yn y Trallwng yn cael effaith negyddol ar ansawdd y bwyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• Nid oedd y bwyd yn cael ei weini'n ffres. Roedd mwy o amser rhwng rhoi'r bwyd ar blatiau yn y gegin a'i weini i gleifion.<br>• Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion fel rhan o'r adolygiad hwn yn nodi nad oedd y cleifion mor fodlon ag ansawdd y bwyd.<br>• Trwy ein hymarferiad profi bwyd, canfuwyd nad oedd ansawdd y bwyd gystal ag ansawdd y bwyd ar safleoedd eraill y BAI.<br>Nodwyd rhai sylwadau a phryderon penodol gan staff a oedd wedi cael adborth gan gleifion ynghylch ansawdd yr wyau wedi'u sgramblo yn Llandrindod a'r cawl madarch. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd (ee archwilio tymheredd bwyd) | ✓ | Mae yna drefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd. Cafodd bwyd ei dderbyn a'u grwpio'n gywir, a chofnodwyd y tymheredd wrth iddo gyrraedd. Caiff bwyd ei storio mewn oergelloedd a rhewgelloedd a reolir ar dymheredd priodol. Mae tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn cael ei fonitro ddwywaith y dydd.<br>Roedd pob cegin a welwyd yn gwirio tymheredd y bwyd yn syth ar ôl ei ail-baratoi. Mae staff y gegin yn gwirio'r mesurydd tymheredd bob wythnos ac yn sicrhau ei fod yn cael ei raddnodi ar gyfnodau priodol.<br>Defnyddir dulliau dyddio a chylchdroi stoc yn briodol.<br>Nid yw staff y gegin yn cymryd tymheredd y troli̇au poeth fel arfer, ac nid oedd y troli̇au wedi'u plygio yn y wal bob amser ar y wardiau. Nid yw hyn yn arfer gorau. Pan fesurwyd tymheredd y bwyd gennym, roedd rhywfaint ohono wedi disgyn o dan 63°c. Mae'r amser o'r cyfnod ar ôl cynhyrchu'r bwyd i'w fwyta'n llai na dwy awr ac o fewn cyfyngiadau diogel derbyniol. Bydd hyn yn effeithio ar ansawdd y bwyd a dywedodd cleifion fod bwyd yn rhy oer ar rai safleoedd. |
| Mae polisi Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith | ✓ | Mae polisi'r HACCP ar waith ac fe'i ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2010. |
| Mae'r cyfleusterau arlwyo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol | ✓ | Trefnir archwiliadau rheolaidd gan swyddog iechyd yr amgylchedd. Mae'r adroddiadau wedi nodi rhai mannau bach sydd angen sylw yn Llandrindod a Llanidloes. |
| Rhoi camau ar waith mewn ymateb i argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | ✓ | Mae'r BAI wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. Edrychodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llanidloes ar y cynnydd ar ôl mis a chadarnhaodd fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli a monitro'r gwasanaeth | ✘ | Pan gynhaliwyd yr adolygiad, nid oedd yna system gyfrifiadurol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth gweithredol, rheoli'r gwasanaeth na'i fonitro. Mae'r BAI wedi buddsoddi yn Menumark, system gan Datasym. Bydd y system yn cael ei defnyddio mewn saith o'r 10 safle. Os bydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol, bydd y system yn darparu cymorth cyflwyno gweithredol fel archebu bwydlenni electronig, cyfleusterau man gwerthu, yn ogystal â rheoli stoc ac adrodd amdano. Aberhonddu fydd y safle gyntaf i ddefnyddio'r system, y bwriedir ei rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2010. |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn wybyddus ac yn cael ei monitro | **Yn rhannol** | At ddibenion adrodd arferol, mae'r ffurflen EFPMS yn nodi'r costau amcangyfrifol a'r costau a ddosrannwyd ar draws y 10 safle. Fodd bynnag, nid yw'r data'n ddigon cadarn ar hyn o bryd i'w ddefnyddio i reoli'r safleoedd o ddydd i ddydd nac i wneud dadansoddiad cymharol a chywir ar draws y BAI neu'n genedlaethol.<br>Nid oes ffigur cywir ar gyfer cost y nwyddau a ddefnyddiwyd. Yn hytrach, caiff costau'r gwasanaeth y ceir gafael ynddynt eu seilio ar y darpariaethau a ddefnyddir mewn cyfnod. Nid yw'r dull hwn yn debygol o fod mor gywir wrth adrodd yn fisol, oherwydd yr amrywiadau yn y stoc a gedwir, ond bydd y ffigurau blynyddol yn fwy cywir. Mae costau staff yn cael eu seilio ar ffigurau gwirioneddol.<br>Er y dylai'r system gyfrifiadurol newydd ddatrys y sefyllfa, caiff costau darparu ar gyfer cleifion a chostau darparu i'r rhai nad ydynt yn gleifion eu cyfrifo ar sail dosraniad ar hyn o bryd. Os yw'r dosraniad yn gywir, mae'r BAI yn talu cymhorthdal o £73,000 ar hyn o bryd dim ond ar gyfer nwyddau. Ar hyn o bryd, nid yw costau'r staff arlwyo'n cael eu cynnwys yn y gost o ddarparu prydau bwyd i staff ac nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y pris gwerthu.<br>Nid yw'r costau arlwyo corfforaethol yn hysbys, ac ni chânt eu hadennill. Yn hytrach, cânt eu cynnwys yn y costau staff arlwyo a darparu cyffredinol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau (parhad)** | | |
| Mae gwastraff bwyd ar wardiau'n cael ei fonitro o ran:<br>• Prydau bwyd heb eu gweini<br>• Bwyd heb ei fwyta | ✓ | Mae gwastraff yn cael ei fonitro'n achlysurol, ac roedd y gwaith monitro diweddaraf a gafodd ei gwblhau ym mis Mehefin 2010 yn arolwg 21 diwrnod mwy trylwyr o wastraff. Roedd yr arolwg hwn yn cofnodi prydau bwyd heb eu gweini ond nid gwastraff ar blatiau na gwastraff ar ôl cynhyrchu. Cwblhaodd y BAI ei arolwg ei hun ar draws pob safle. Canfu'r arolwg mai'r cyfanswm cyffredinol o wastraff (heb ei bwyso) ar draws bob safle yw 9.9%. Yn ariannol, mae hyn yn cyfateb â £37,465 mewn prydau heb eu gweini. Os gallai'r BAI leihau'r gwastraff i lefel y safle sy'n perfformio orau ganddo, sef 2.6%, gallai arbed tua £27,000. Ers y gwaith maes gwreiddiol ym mis Mehefin 2010, mae cost a gwastraff y nwyddau wedi'u rheoli'n well ac wedi arbed arian.<br>Tra bod arolwg gwastraff y BAI yn cofnodi prydau bwyd heb eu gweini, roedd arolwg Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys gwastraff ar ôl cynhyrchu, prydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau. Mae'r ffigurau gwastraff hyn yn llawer uwch, fel y dangosir yn Ffigur 2, sy'n awgrymu efallai fod angen i'r BAI gryfhau ei ddull cyfredol.<br>Mae cynyddu nifer y dewisiadau bob dydd yn cynyddu'r gwastraff yn sylweddol gan fod dognau Apetito'n dod mewn pecyn sy'n cynnwys o leiaf dau ddogn. Gall hyn arwain at baratoi mwy o brydau nag sydd eu hangen. Gwelwyd hyn yn Llanidloes lle cafodd mwy o ddewisiadau eu darparu nag oedd ar y fwydlen, ac o ganlyniad, cafwyd llawer mwy o wastraff, gyda 72% o wastraff yn cael ei gofnodi gennym ar y dydd. |
| Mae yna ddull penodedig o sicrhau cymhorthdal/cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion | ✗ | Os yw'r dosraniad EFPMS cyfredol yn gywir, yna mae'r BAI yn darparu cymhorthdal o £73,000 tuag at brydau bwyd staff.<br>Nid yw costau staff yn cael eu hadennill yng ngwerthiant bwyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Pe bai'r rhain yn cael eu hystyried yng nghyfanswm costau'r prydau bwyd i staff, gallai hyn gynyddu'r cymhorthdal yn sylweddol.<br>Nid yw'r Bwrdd wedi cytuno ar bolisi ar gyfer cymhorthdal prydau bwyd i staff. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna bolisi i brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion | ✓ | Mae yna restr prisiau bwyd cyffredinol i bobl nad ydynt yn gleifion (staff). Ni werthir bwyd i'r rhai sy'n ymweld â chleifion fel arfer, ond mae hyn yn digwydd o bryd i'w gilydd. Gallai fod yna gyfle i adfer rhai o'r costau trwy gynyddu'r gwerthiannau masnachol i ymwelwyr. |
| Mae gwastraff yr ystafell fwyta'n cael ei fonitro | ✗ | Ni chofnodir gwastraff. |

## Cymharu costau'r gwasanaeth

18. Aethom at i wneud dadansoddiad ariannol o'r gwasanaeth arlwyo. Cyflwynir y ffigurau yn Ffigur 1. Mae cyfanswm y gost fesul diwrnod claf mewnol yn uchel. Mae cyfanswm costau fesul diwrnod claf mewnol yn arbennig o uchel yn ysbytai Bronllys a Threfyclo.

19. Mae'r ffigurau'n nodi costau uwch fesul diwrnod claf mewnol nag y cyflwynwyd yn ffurflenni'r EFPMS. Gallai hyn fod oherwydd ein bod wedi defnyddio nifer y cleifion mewnol fel enwadur, a bod BILI Powys wedi defnyddio nifer y prydau bwyd i gleifion a holwyd amdanynt wedi rhannu â thri. Bydd y gymysgedd wahanol o gleifion mewnol a chleifion eraill sydd angen prydau bwyd yn cyfyngu ar ein gallu i wneud cymariaethau cenedlaethol. Rydym wedi cynnwys cyfartaleddau cenedlaethol yn Ffigurau 2 a 3. Mae cyfanswm y gost fesul diwrnod claf yn cynnwys costau staff ac mae'r rhain yn amrywio'n sylweddol. Gallai hyn fod oherwydd:
    - Bod angen lleiafswm o staff, waeth faint o gleifion sydd yma. Bydd costau staff mewn safleoedd tawelach yn ymddangos yn gymharol uchel.
    - Efallai fod gan rai safleoedd ormod neu ddim digon o staff.
    - Gallai safleoedd wynebu nifer o absenoldebau salwch neu famolaeth a allai effeithio'n anghymesurol ar y costau mewn lleoliad ag ychydig o staff.


20. Mae cost darpariaethau cleifion fesul diwrnod claf mewnol yn amrywio o un safle i'r llall ac mae hyn yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i sawl ffactor, fel:
    - Bydd rhai safleoedd yn gweini prydau bwyd i bobl nad ydynt yn gleifion mewnol, ond mae cost y rhain yn dal i gael eu cyfrif. Bydd hyn yn arwain at gostau uchel artiffisial.
    - Lefelau gwahanol o wastraff;
    - Cleifion yn archebu gwahanol symiau o fwyd a bwyd o gost amrywiol;
    - Costau arlwyo corfforaethol ddim yn cael eu hadennill (gweler Bronllys yn Ffigur 2); a'r
    - Dull o ddosrannu costau darparu i gleifion a phobl nad ydynt yn gleifion, nad ydyw, o bosibl, yn adlewyrchiad cywir o'r rhaniad gwirioneddol.

**Ffigur 1: Dadansoddiad o gostau'r gwasanaeth**

| Safle | Cyfanswm cost fesul diwrnod claf mewnol (£) | Cost darpariaeth i gleifion fesul diwrnod claf mewnol (£) |
|---|---|---|
| Ystradgynlais | 18.42 | 6.03 |
| Aberhonddu | 11.34 | 3.32 |
| Bronllys | 35.35 | 17.78 |
| Llanfair-ym-Muallt | 12.98 | 2.01 |
| Llandrindod | 17.70 | 5.91 |
| Trefyclo | 26.64 | 6.17 |
| Y Drenewydd | 17.39 | 4.57 |
| Llanidloes | 11.64 | 2.67 |
| Machynlleth | 12.38 | 3.00 |
| Y Trallwng | 18.30 | 5.20 |
| **Pob safle** | **18.00** | **5.84** |


*Ffynhonnell: Ffurflen ariannol BAI Powys i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09*

**Ffigur 2: Cost darpariaethau i gleifion fesul diwrnod claf mewnol**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 3: Cyfanswm cost y gwasanaeth arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf mewnol 2008-09 (£oedd)**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

21. Wrth adolygu'r wybodaeth ar y ffurflen am ddata ariannol System Reoli Perfformiad yr Ystadau a'r Cyfleusterau, cynhaliwyd dadansoddiad i bennu sefyllfa ariannol gweithgarwch masnachu'r rhai nad oeddent yn gleifion. Cyflwynir y dadansoddiad hwn yn Ffigur 4. Ar sail y dull cyfredol o ddosrannu, gwelir bod pob safle'n masnachu ar ddiffyg ariannol ar hyn o bryd, felly mae'r gwerthiannau hyn yn cael eu cymorthdalu gan y BAI.

**Ffigur 4: Dadansoddiad o gostau'r gwasanaeth (ar sail ffurflenni data'r EFPMS)**

| Safle | Sefyllfa fasnachu'r gwasanaeth i rai nad ydynt yn gleifion (£) |
|---|---:|
| Ystradgynlais | -4,171.45 |
| Aberhonddu | -11,005.27 |
| Bronllys | -11,174.67 |
| Llanfair-ym-Muallt | -4,282.82 |
| Llandrindod | -17,954.62 |
| Trefyclo | -1,724.30 |
| Y Drenewydd | -6,896.87 |

| **Safle** | **Sefyllfa fasnachu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn gleifion (£)** |
|---|---:|
| Llanidloes | -7,723.79 |
| Machynlleth | -4,506.48 |
| Y Trallwng | -3,956.62 |
| **Pob safle** | **-73,396.89** |

*Ffynhonnell: EFPMS BAI Powys ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10*

## Gwastraff bwyd

22. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys archwiliad arsylwi ar wastraff bwyd o brydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau. Roedd yna ganran uchel o brydau heb eu gweini yn Llanidloes am nad oedd y fwydlen yn cael ei dilyn yn llythrennol ac roedd ystod ehangach o fwyd yn cael ei archebu nag oedd ar y fwydlen. Effaith hyn oedd bod nifer o brydau bwyd dau ddogn Apetito'n cael eu coginio gyda dim ond un dogn yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn creu 50 y cant o wastraff cyn ystyried y gwastraff ar blatiau. Pe bai systemau a bwydlenni'n cael eu dilyn yn llwyr a phrosesau rheoli dognau da'n cael eu dilyn, gellid lleihau'r gwastraff yn sylweddol.

23. Ffactorau sy'n effeithio ar wastraff prydau bwyd heb eu gweini:
    - glynu at y fwydlen fel y cynlluniwyd hi;
    - defnyddio maint dognau'n briodol wrth archebu ar y ward; a
    - gorgynhyrchu, er enghraifft, cynhyrchu prydau bwyd maint arferol pan holwyd am nifer o brydau bwyd llai o faint, a gellid lleihau cyfanswm yr archeb.

24. Ffactorau sy'n effeithio ar wastraff ar blatiau:
    - darparu cymorth a chefnogaeth i'r cleifion cyn ac yn ystod prydau bwyd;
    - sicrhau bod y bwyd yn edrych yn flasus;
    - defnyddio'r amserau bwyd wedi'u diogelu'n effeithiol; a
    - rheoli dognau'n dda wrth weini.

**Ffigur 5: Lefelau gwastraff prydau bwyd gan gynnwys rhagfynegiad o arbedion**

| Ward | Prydau heb eu gweini | Gwastraff ar blatiau | Cyfanswm gwastraff | Cost nwyddau i gleifion (£) | Enghraifft o arbedion trwy leihau gwastraff i 30% |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanidloes | 39.29% | 33.00% | 72.29% | 15,414 | 6,519 |
| Llandrindod | 27.03% | 13.31% | 40.34% | 45,176 | 4,671 |
| Ystradgynlais | 18.92% | 19.46% | 38.38% | 51,474 | 4,314 |
| Y Trallwng | 32.93% | 35.00% | 67.93% | 40,499 | 15,361 |
| **Cyfanswm** | **28.38%** | **24.03%** | **52.41%** | **152,563** | **30,865** |

*Ffynhonnell: BAI Powys ac arsylwad Swyddfa Archwilio Cymru*

## Dosbarthu bwyd i'r ward

25. Mae'r BAI yn darparu bwyd sydd fel arfer yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da, er y gallai newid rhai arferion presennol wella profiadau cleifion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Fel arfer, mae'r wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr da iawn ac roedd y bwyd yn parhau i fod mewn cyflwr da tan ddiwedd yr amser bwyd. Ond, mae'r gwasanaeth pryd bwyd ar blatiau, sy'n parhau i fod ar waith yn y Trallwng, yn cymryd mwy o amser rhwng y coginio a'r gweini terfynol. Mae hyn i'w weld yn effeithio ar ansawdd y bwyd.
- Roedd ansawdd ac effeithlonrwydd y prosesau gweini bwyd yn amrywio o un safle i'r llall, ond roedd yn dda iawn yn Llandrindod oedd yn golygu bod cleifion yn cael eu cefnogi'n dda.
- Dangosodd un ysbyty, Llandrindod, brosesau a diwylliant da iawn o ran helpu cleifion yn ystod amserau bwyd; mae dau safle'n diwallu anghenion cleifion yn ddigonol; ond gallai Ysbyty Coffa Fictoria yn y Trallwng wneud llawer mwy i gynorthwyo cleifion yn ystod amserau bwyd.
- Roedd y graddau yr oedd safleoedd yn paratoi cleifion ar gyfer amserau bwyd yn amrywio, ac mewn rhai achosion, nid oedd cleifion yn cael cyfle i ymolchi, golchi eu dwylo na mynd i'r tŷ bach.
- Cyflwynwyd y bwyd mewn modd boddhaol ar rai safleoedd, ond ar safleoedd eraill, gellid gwella'r cyflwyniad ymhellach er mwyn gwella profiad cleifion.

26. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 3: Dosbarthu bwyd i'r ward a'r claf**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward ar yr amser cywir | ✓ | Yn gyffredinol, dechreuai'r gwaith o weini'r prydau bwyd a welwyd ar draws y Bwrdd Iechyd ar yr amser a drefnwyd. Yn gyffredinol, roedd yr amser rhwng coginio a chyrraedd y ward yn fyr iawn, ar wahân i'r Trallwng, sydd â'r broses ychwanegol o roi'r bwyd ar blatiau yn y gegin.<br>Cadarnhaodd rheolwyr wardiau nad oedd problemau ynghylch prydlondeb gwaith y ceginau. |
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee ar y tymheredd cywir) | **Yn rhannol** | Wrth arsylwi ar y ward, gwelwyd fod y mwyafrif o drolïau'r ward yn cadw bwyd ar y tymheredd priodol ac argymelledig pan gânt eu defnyddio'n iawn.<br>Nid oedd staff yn plygio'r troli yn y wal ar y ward bob amser. Gan fod y bwyd yn cael ei weini'n gyflym iawn fel arfer, ni wnaeth hyn arwain at broblemau o ran tymheredd y bwyd ar y diwrnod yr arsylwyd ar y ward, ond roedd adborth y cleifion yn nodi bod prydau'n rhy oer ar adegau.<br>Roedd y trolïau yn y Trallwng yn gweithredu'n boethach nag 80ºc ac roedd bwyd yn y troli'n hirach nag ar safleoedd eraill. Gallai hyn fod yn ffactor i egluro pam fod barn cleifion ar ansawdd y bwyd a'n hymarferiad blasu bwyd wedi canfod nad oedd y bwyd gystal â'r bwyd ar y safleoedd eraill a adolygwyd. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir | ✓ | Wrth arsylwi ar y ward, canfyddwyd fod y staff yn defnyddio bwydlenni copi caled i'w cynorthwyo i weini'r prydau bwyd, p'un ai bod y rheiny wedi'u rhoi ar blatiau yn y gegin neu ar y ward. Mae gan y bwydlenni enwau'r cleifion arnynt. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae staff penodedig (staff cadw tŷ neu arlwywyr ar y ward) ar gael i helpu i weini'r prydau | **Yn rhannol** | Roedd staff penodol yn bresennol ar bob safle i weini'r prydau bwyd. Fodd bynnag, roedd ansawdd y broses hon yn amrywio'n sylweddol. Roedd y broses yn dda iawn yn Llandrindod, lle defnyddiwyd dull da o ddefnyddio tîm aml-sgil i weini'r prydau bwyd. Roedd y cleifion â hambyrddau coch a oedd angen cymorth yn cael bwyd yn gyntaf ac yn cael cymorth. Ar yr un pryd, byddai'r gweini'n parhau gyda'r staff oedd ar ôl yn rhannu'r prydau bwyd i'r cleifion mwy abl. Roedd y broses hon yn cael ei hailadrodd ar gyfer y pwdinau, a weinwyd ar ôl y prif brydau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cadw'n gynnes. Roedd y broses yn wael yn Ysbyty Coffa Fictoria yn y Trallwng. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd | **Yn rhannol** | Mae'r mwyafrif o staff y ward yn cael hyfforddiant ar gyflwyno bwyd, ond gwelwyd bod y cyflwyniad yn amrywio yn ymarferol. Gellid gwella cyflwyniad terfynol prydau bwyd yr addaswyd eu hansawdd.<br>Gweinodd y staff y pryd bwyd isod yn Llanidloes. Pan dynnwyd y llun hwn, nododd aelod o'r staff, 'pe bydden ni wedi gwybod bod llun yn mynd i gael ei dynnu ohono, bydden ni wedi ei gyflwyno'n well'. Mae hyn yn awgrymu bod yna broblem bosibl o ran hyfforddiant.<br><br>Isod, pryd bwyd llawn yn Ystradgynlais<br><br>Isod, salad quiche yn Llandrindod<br> |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd | ✓ | Mae staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar hylendid bwyd. |
| Mae mannau cleifion yn cael eu paratoi i dderbyn prydau bwyd | **Yn rhannol** | Wrth arsylwi, gwelwyd fod amgylchedd y claf yn cael ei baratoi'n ddigonol ar y cyfan. Nid oedd unrhyw eitemau clinigol i'w gweld ar fyrddau'r cleifion, er bod rhai byrddau'n anniben. Mewn rhai achosion, nid oedd yr ystafelloedd dydd yn lleoedd dymunol iawn i fwyta bob amser, ac roedd staff yn cael trafferth i annog cleifion i fwyta yno. Nid oedd cleifion bob amser yn cael cymorth i eistedd yn iawn i fwyta, yn arbennig y rhai oedd angen bwyta yn eu gwelyau. |
| Mae cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta | **Yn rhannol** | Gwelwyd arferion cymysg wrth arsylwi. Mewn rhai mannau, paratowyd cleifion yn dda ar gyfer amserau bwyd, ac mae hyn yn rhan o'r broses o ymolchi a gwisgo cleifion yn y bore. Ar rai safleoedd, gall cleifion olchi a mynd i'r tŷ bach cyn bwyta os ydynt yn dymuno. Ar un ward yn y Trallwng, oherwydd mai ychydig o staff sy'n cynorthwyo gyda phrydau bwyd, bu'n rhaid oedi'r gwasanaeth pryd bwyd gan fod yn rhaid i'r cynorthwyydd gofal iechyd a oedd yn gweini'r bwyd fynd a chlaf i'r tŷ bach. |
| Mae'r bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon | ✓ | Darperir y bwyd i'r claf yn gyflym ar y cyfan. Yn y Trallwng, cafodd y gwasanaeth ei atal er mwyn i'r staff a oedd yn gweini fynd â chlaf i'r tŷ bach. |

27. Caiff yr arfer da a'r materion a gododd ym mhob un o'r pedair ward a adolygwyd yn yr archwiliad hwn eu crynhoi yn y tabl canlynol.

## Gwastraff bwyd

28. Dylai adrannau arlwyo fod yn cynhyrchu prydau bwyd o ansawdd uchel i gleifion a dylai'r pryd gadw ei ansawdd wrth gael ei weini i glaf. Mae hyn yn golygu darparu digon o ddewis ar y fwydlen, a gweini prydau deniadol a blasus ar dymheredd addas. Dylid monitro ansawdd y seigiau'n barhaus er mwyn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a'u gwella.

29. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys panel blasu bwyd oedd yn cynnwys archwilwyr, staff arlwyo, staff wardiau a staff deietegol. Trwy ddefnyddio system sgorio 1-5 syml, asesodd y panel y bwyd yn ôl:
    - ei dymheredd a'i olwg;
    - ei arogl, ei flas a'i ansawdd;
    - a gyrhaeddodd yr eitem gywir a archebodd y claf oddi ar y fwydlen; a
    - maint dogn cywir a archebwyd gan y claf.

30. Er y bydd dull o'r fath bob amser yn cynnwys rhywfaint o wrthrychedd, câi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob un o sefydliadau'r GIG yr ymwelwyd â hwy. Mae'n gyfle, felly, i allu cymharu rhwng y gwahanol safleoedd yr ymwelwyd â hwy.

31. Mae uchafswm sgôr o 100 y cant yn bosibl pe bai'r holl feini prawf a brofwyd yn derbyn 'gradd 5'. Cyfanswm y sgôr gyfartalog ar gyfer ansawdd y bwyd oedd 80 y cant, sy'n debyg i ysbytai eraill (Ffigurau 6 a 7). Roedd y gwaith o reoli dognau'n ardderchog yn Llandrindod. Cafodd y gwasanaeth pryd ar blatiau yn y Trallwng lai o sgôr am ymddangosiad, arogl, blas ac ansawdd. Mae'r rheolwr arlwyo wedi nodi nifer o broblemau yn y Trallwng ac wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.


**Ffigur 6: Cyfanswm sgoriau ansawdd bwyd ysbyty (1=isel 5=uchel)**

| | Llanidloes | Llandrindod | Ystradgynlais | Y Trallwng |
|---|---|---|---|---|
| **Tymheredd** | 4.6 | 4 | 3.6 | 4.4 |
| **Ymddangosiad** | 4 | 4.2 | 3.6 | 3.4 |
| **Arogl** | 4.2 | 4 | 4 | 3.5 |
| **Blas** | 4 | 4.2 | 4 | 3.4 |
| **Ansawdd** | 4.2 | 4.2 | 3.6 | 3.4 |
| **Eitem gywir** | 2.6* | 5 | 5 | 4.8 |
| **Maint dogn** | 3 | 5 | 4 | 4.6 |
| **Cyfanswm sgôr (allan o 35)** | **26.6** | **30.6** | **27.8** | **27.5** |
| **Cyfanswm y sgôr fel %** | **76%** | **87.4%** | **79.4%** | **78.5%** |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

*Nodwch: *wedi colli marciau gan nad oedd nifer o eitemau a gynhyrchwyd ar y fwydlen y diwrnod hwnnw*

**Ffigur 7: Cyfanswm sgoriau'r paneli ansawdd bwyd ysbyty**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

32. Mae ansawdd y broses asesu maeth yn gyson ar y cyfan ac mae'n nodi'r cleifion hynny sydd mewn risg, ond mae effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer maeth a chymorth yn ystod amserau bwyd yn amrywio'n sylweddol o un ward i'r llall.

33. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maeth pan gânt eu derbyn, a chaiff yr offeryn MUST ei ddefnyddio ar bob safle a adolygwyd y rhan fwyaf o'r amser.
- Ni chedwir at amserau bwyd wedi'u diogelu bob amser ledled ysbytai'r BAI.
- Er bod y system hambwrdd coch wedi'i fabwysiadu'n eang, gall y ffordd y caiff ei ddefnyddio amrywio o un ward i'r llall.
- Mae staff y ward ar gael i helpu cleifion i fwyta, ond mae'n broses lawer mwy effeithiol ar rai safleoedd.
- Mae trefniadau arlwyo'r BAI yn darparu dewis ac yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion. Mae ceginau'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion a gofynion maeth penodol ar y cyfan.
- Cofnodir faint o fwyd a diod sy'n cael ei fwyta a'i yfed gan y cleifion hynny y nodwyd eu bod mewn risg o ran maeth.
- Weithiau, defnyddir ychwanegiadau maeth fel dewis hawdd pan na fydd digon o gymorth ar gael i gleifion yn ystod amserau bwyd.

34. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 4: Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn, drwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu | **Yn rhannol** | Nododd y gwiriad o gofnodion fod mwyafrif y cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn. Yn y Trallwng, nododd y gwiriad o gofnodion nad oedd taldra a BMI yn cael eu cofnodi bob amser. Ar safleoedd eraill, roedd y dulliau o asesu maeth yn diwallu anghenion cleifion. |
| Lle bo'n briodol, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ddeietegydd, a/neu at therapydd lleferydd ac iaith | ✓ | Caiff y cleifion mewn risg eu hatgyfeirio at ddietegydd a/neu therapydd iaith a lleferydd. Nododd un deietegydd fod y broses atgyfeirio'n gallu bod yn orsensitif, gan arwain at nifer fawr o atgyfeiriadau. |
| Mae cynllun gofal maeth yn cael ei baratoi a'i weithredu ar sail sgôr risg maeth y claf | ✓ | Yn y mwyafrif o achosion, lle'r oedd claf wedi derbyn sgôr a oedd yn nodi ei fod mewn risg o ran maeth, roedd yna gynllun gofal ar waith. O wirio'r cofnodion, dim ond un claf oedd heb gynllun gofal maeth ar waith, ond roedd y claf hwn wedi'i gyfeirio at therapydd iaith a lleferydd ac yn cymryd ychwanegiadau maeth. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith ar gyfer amser bwyd wedi'i ddiogelu | **Yn rhannol** | Roedd yna arferion amrywiol ar waith ar gyfer amserau bwyd wedi'u diogelu yn y safleoedd a arsylwyd arnynt. Ar rai safleoedd, ychydig iawn o arwyddion oedd i'w weld ar gyfer amserau bwyd wedi'u diogelu, er bod amserau bwyd wedi'u diogelu ar waith.<br>Mae gan Landrindod arwyddion ardderchog, ac mae yna drefniadau amser bwyd wedi'i ddiogelu effeithiol iawn ar waith. Yr unig aelod o staff wrth ei waith oedd y therapydd iaith a lleferydd a oedd yn bresennol yn ystod amserau bwyd yn fwriadol er mwyn cael cleifion i roi cynnig ar brydau bwyd gwahanol gyda'u hansawdd wedi'u haddasu.<br>Nid oedd amserau bwyd wedi'u diogelu ar waith yn y Trallwng. Roedd yn rhaid i'r staff reoli rowndiau'r ward, ymwelwyr, rowndiau troli meddyginiaeth llawn a derbyniadau newydd yn ystod amserau bwyd. Ar yr un pryd, roedd staff hefyd ar egwyl ac roedd eraill wrthi'n gwneud gwaith papur. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y rhai sy'n gweini prydau'n ymwybodol o ofynion maeth penodol cleifion | **Yn rhannol** | Ar y mwyafrif o safleoedd, nododd eich arsylwadau a'n cyfweliadau fod staff yn ymwybodol o faeth ac yn gallu cynorthwyo cleifion wrth archebu. Mae'r staff yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau ac anghenion cleifion. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y broses hon yn amrywio o un safle i'r llall.<br>Efallai fod angen deiet protein uchel/calori uchel ar rai cleifion ond eu bod eisiau salad, cawl neu saig lysieuol sydd ddim yn cynnwys llawer o galorïau neu asidau amino hanfodol. Roedd yna gymorth ar gael gyda'r fwydlen i helpu i gefnogi agweddau maeth y broses archebu, ond gellid gwella'r broses hon ymhellach ar bob safle, er enghraifft, trwy gael arweinydd maeth ar y ward.<br>Mae rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant maeth sylfaenol ac yn fwy diweddar, hyfforddiant penodol a gafodd dderbyniad da, a ddarparwyd gan therapyddion iaith a lleferydd. |
| Mae dewis da o fwyd i gleifion ar y fwydlen | ✓ | Mae'r fwydlen yn un gonfensiynol ac mae'r fersiwn diweddaraf wedi'i gynllunio gan ystyried demograffeg cleifion y BAI.<br>Mae deietegwyr a therapyddion iaith a lleferydd wedi cyfrannu'n dda ac yn barhaus i'r gwaith o gynllunio'r fwydlen. Mae'n anodd dadansoddi maeth pob eitem ar y fwydlen oherwydd diffyg adnoddau. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae dewisiadau llysieuol ar y fwydlen | ✓ | Mae llai o ddewisiadau i lysieuwyr dros gylch o 21 diwrnod, felly gallai cleifion a dderbynnir dros gyfnod hir weld y dewis yn ailadroddus. |
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau i gleifion o gefndiroedd crefyddol/ethnig penodol | **Yn rhannol** | Mae llai o ddewisiadau i'r cleifion hynny sydd angen mathau arbennig o brydau bwyd dros gylchred o 21 diwrnod, felly gallai cleifion a dderbynnir dros gyfnod hir weld y dewis yn ailadroddus.<br>Nid yw'r fwydlen yn nodi'n glir a yw bwyd yn addas i gleifion o gefndiroedd crefyddol/ethnig penodol. |
| Mae trefniadau ar waith i nodi cleifion a allai fod angen cymorth arbennig i fwyta eu bwyd | ✓ | Nododd yr archwiliad arsylwi fod hambwrdd neu fat coch yn cael ei ddefnyddio ar y rhan fwyaf o safleoedd i nodi cleifion sydd angen cymorth.<br>Ar un safle, defnyddiwyd yr hambwrdd coch a dyddiadur bwyd a diod i nodi'r cleifion sydd mewn risg o ran maeth. Ar y safle hwn, roedd y staff yn gwybod pa gleifion oedd angen cymorth. |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta lle bo angen | **Yn rhannol** | Mae effeithiolrwydd y cymorth ar amserau bwyd yn amrywio. Canfu ein harsylwad fod gan Landrindod ddiwylliant tîm da iawn ar wardiau, a oedd yn rhoi blaenoriaeth i amserau bwyd a chymorth i gleifion. |
| Mae cleifion yn gallu cael byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd | ✓ | Gall cleifion gael byrbrydau y tu allan i amserau bwyd ar bob safle, ond ychydig iawn o ddewis sydd i'w gael. Mae yna amser hir rhwng swper a brecwast ac efallai bydd cleifion angen bwyta llai o fwyd ond yn fwy rheolaidd.<br>Er mwyn osgoi gwastraff, gellid paratoi brechdanau neu nwyddau ar y ward bob dydd, ac os na fyddent yn cael eu defnyddio dros nos, gellid eu defnyddio ar gyfer prydau bwyd staff a chleifion y diwrnod wedyn. |
| Mae cymeriant bwyd cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio'r Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan | ✗ | Mae Siart Bwyd a Diod Cymru Gyfan newydd ddechrau cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd.<br>Mae yna ddyddiaduron bwyd a hylif i bob claf sydd mewn risg o ran maeth. |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau dyddiol ac wythnosol yn cael eu defnyddio | ✓ | Mae yna ddyddiaduron bwyd a hylif i bob claf sydd mewn risg o ran maeth. |

## Defnyddio ychwanegion bwyd

35. Fel rhan o'r gwaith o adolygu cofnodion cleifion, edrychwyd ar sut y defnyddir ychwanegion bwyd. Nododd yr adolygiad hwn fod rhai safleoedd yn dibynnu ar ychwanegiadau maeth. Gwnaed gwaith ychwanegol i bennu effaith ariannol defnyddio ychwanegiadau maeth yn rheolaidd. Nododd hyn fod cost arferol presgripsiynau ychwanegiadau maeth i gleifion mewnol yn isel dros ben.

36. Caiff ychwanegiadau maeth yng ngwasanaethau acíwt y GIG ac yn y gymuned ei reoli a'i gontractio'n wahanol, ac felly gwelir gwahaniaeth yn y costau:

- Caiff y contract gofal iechyd acíwt ei drafod a'i reoli gan Gyflenwadau Iechyd Cymru. Mae'r prif gontract cymunedol yn cael gostyngiadau ffafriol dros ben ar gyfer ychwanegion a gyflwynir yn aml ar bresgripsiwn.
- Caiff prosesu ariannol presgripsiynu cymunedol ei reoli trwy'r Uned Gwasanaethau Presgripsiwn ac mae'r gost fesul uned (a gaiff ei ad-dalu i fferyllfeydd cymunedol) yn llawer uwch.

37. Mae Ffigur 8 yn darparu rhestr o enghreifftiau o ychwanegiadau maeth a ddefnyddir yn aml gan y BAI. Y risg i'r BAI yw bod rhai cleifion yn cael ychwanegiadau ar bresgripsiwn yn y lleoliad acíwt am gost fechan ac yna'n parhau i'w derbyn yn ddiangen yn y gymuned am bris uwch anghymesur.

**Ffigur 8: Cost ychwanegiadau maeth (acíwt a chymunedol)**

| Disgrifiad o'r eitem | Uned a roddir | Cost gyfredol i gleifion mewnol fesul uned* | Cost gyfredol i fferyllfeydd cymunedol Cymru Gyfan fesul uned** | Unedau a roddwyd ar bresgripsiwn yn y gymuned ledled Cymru gyfan yn 2009-10 |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau maeth PRO-CAL | 1 X potel 250ml | 4.46 | 4.46 | 3,885 |
| Hylif ceg Ensure plus | 1 X potel 220ml | 0.01 | 1.85 | 36,553 |
| Bwydydd hylif Fortisip | 1 X potel 200ml | 0.01 | 1.85 | 42,769 |
| Hylif ceg Fortijuice | 1 X potel 200ml | 0.01 | 1.85 | 15,027 |
| Forticreme complete | 1 X pot 125g | 0.01 | 1.80 | 5,762 |

* cost fesul uned a ddarparwyd gan Gyflenwadau Iechyd Cymru

**cost fesul uned a ddarparwyd gan yr Uned Gwasanaethau Presgripsiynu (rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

38. Er bod yna nifer o ddulliau da ar gyfer casglu adborth gan grwpiau rhanddeiliaid a staff, mae lle i wella'r dull o gael adborth gan gleifion er mwyn cynorthwyo'r gwaith o fonitro perfformiad a gwneud penderfyniadau ynghylch y fwydlen.

39. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cyfarfodydd arlwyo misol yn cael eu cynnal ar y safleoedd a adolygwyd er mwyn cael adborth gan y ward, ond mae yna rywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod lle i wella effeithlonrwydd a chanolbwyntio mwy ar y math hwn o fforwm;
- mae yna fforwm grŵp arlwyo a maeth ehangach sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid gwahanol;
- mae yna amrywiaeth o weithwyr arbenigol yn gweithredu ar ran y cleifion, fel nyrsys, deietegwyr a therapyddion iaith a lleferydd sy'n ymwneud â darparu adborth ar gynllunio'r bwydlenni;
- mae cynghorau iechyd cymuned yn darparu amrywiaeth o ddulliau o gael adborth ac arsylwi ar gleifion;
- casglir safbwyntiau cleifion ar wasanaethau bwyd ac arlwyo, ond nid yn rheolaidd;
- mae'r arolwg cleifion a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad hwn wedi amlygu amrywiaeth o safbwyntiau sydd angen eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a monitro arferol; a
- mae safbwyntiau'r cleifion ar fwyd ysbyty a'r gwasanaethau arlwyo'n cael eu casglu trwy adborth anffurfiol neu anuniongyrchol i staff y ward yn amlach na pheidio, er bod arolygon cleifion wedi'u cynnal yn y gorffennol.

40. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 5: Casglu barn cleifion ar y gwasanaeth arlwyo**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna weithgareddau rheolaidd i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo, a'u profiad ohonynt | **Yn rhannol** | Nid yw'r adran Arlwyo'n cynnal arolygon rheolaidd o foddhad cleifion. Cafodd y rhan helaeth o safbwyntiau diweddar cleifion eu darparu yn anuniongyrchol gan asiantau eraill neu trwy adborth anffurfiol. Er enghraifft, pan fydd staff y ward yn cysylltu â'r gegin am fater penodol. Dim ond ychydig iawn o wybodaeth a gesglir gan yr offeryn archwilio hanfodion gofal i gynorthwyo'r gwaith o reoli perfformiad a gwneud penderfyniadau. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynrychioli mewn grwpiau cynllunio arlwyo | ✘ | Er bod y grŵp strategol yn cynnwys y Cynghorau Iechyd Cymuned, nid oes unrhyw drefniadau ar waith i gynnwys grwpiau cleifion yn uniongyrchol yn y gwaith cynllunio. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cymryd rhan mewn adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth | ✘ | Nid yw'r cleifion yn cael eu cynnwys rhyw lawer yn y gwaith o brofi bwydlenni ac adolygu ansawdd. |
| Mae trefniadau effeithiol a chydgysylltiedig ar waith i ddefnyddio barn cleifion a phrofiadau grwpiau staff i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaeth | **Yn rhannol** | Mae amrywiaeth o weithwyr arbenigol sy'n gweithredu ar ran y cleifion, fel nyrsys, deietegwyr a therapyddion iaith a lleferydd yn cyfrannu at ddarparu adborth ar gynllunio'r fwydlen a'r gwasanaeth.<br>Defnyddir y trefniadau adborth sydd ar waith i ddatrys problemau, ond mae lle i wella'r trefniadau rheoli perfformiad yn gyffredinol. |

## Nododd canlyniadau'r arolwg o gleifion nifer o feysydd lle'r oedd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan BAI Powys yn cyrraedd cyfartaledd Cymru neu'n well na'r cyfartaledd

41. Wrth ddadansoddi safbwyntiau cleifion a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, amlygwyd fod ansawdd y trefniadau cefnogi arlwyo ac amserau bwyd yn gryfach o'u cymharu â Chymru gyfan. Er bod yr ymatebion yn dda ar y cyfan, mae yna anghysondeb yng nghanlyniadau'r gwahanol safleoedd a ddylai fod yn sail i unrhyw gamau gwella ar draws holl safleoedd BAI Powys.

42. Yn arbennig, rydym yn nodi'r canlynol:

- Roedd nifer y cleifion a oedd yn aros am fwy na phythefnos yn fwy yn y BAI o gymharu â chanlyniadau Cymru gyfan.
- Roedd y rhan fwyaf o gleifion yn cael eu pwyso yn ystod eu harhosiad, ond nid pob un.
- Roedd y rhan fwyaf o gleifion yn trafod eu hanghenion deietegol gyda'r staff, ac roedd y rhan fwyaf o gleifion yn cael bwyd addas. Mae'r canlyniadau hyn yn fwy cadarnhaol yn y BAI o gymharu â Chymru gyfan.
- Roedd y rhan fwyaf o gleifion yn cael cymorth yn ystod y pryd bwyd os oedd angen.
- Roedd canran fechan o gleifion ar rai safleoedd yn credu bod asesiadau neu driniaethau meddygol yn tarfu ar eu hamserau bwyd.
- Roedd mwy o gleifion yn y BAI yn credu bod eu bwyd yn dda neu'n ardderchog o gymharu â chanlyniadau Cymru gyfan.

43. Darperir dadansoddiad manylach o ymatebion yr arolwg yn Atodiad 2.

Atodiad 1

## Y dull archwilio

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: ‘A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy’n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig?’

Mae’r is-gwestiynau canlynol yn sail i’r cwestiwn cyffredinol:

- A yw’r trefniadau cynllunio strategol ar gyfer arlwyo yn effeithiol?
- A yw’r trefniadau caffael yn effeithiol ac yw’r bwyd yn dod o gyflenwyr diogel?
- A yw prosesau cynhyrchu bwyd yn cael eu rheoli’n dda?
- A oes trefniadau effeithlon ar waith ar gyfer dosbarthu’r bwyd i’r wardiau ac i’r claf?
- A yw’r trefniadau ar y wardiau’n helpu i ddiwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi eu gwellhad?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ymgynghori â chleifion ynglŷn â’r gwasanaeth arlwyo a dderbyniant?

Datblygwyd modiwl archwilio ar gyfer pob un o’r is-gwestiynau a restrir uchod.

**Ffigur 6: Modiwlau archwilio**

| Modiwl | Offer archwilio |
|---|---|
| **Modiwl 1:** Trefniadau cynllunio strategol | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 2:** Trefniadau caffael | Dadansoddiad o gost<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o’r broses<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 3:** Rheoli’r prosesau cynhyrchu | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o’r broses<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 4:** Trefniadau dosbarthu i wardiau | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |

| Modiwl | Offer archwilio |
|---|---|
| **Modiwl 5:** Cefnogi gwellhad | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Offeryn arsylwi ar wastraff<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Offeryn asesu maeth<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 6:** Ymgysylltu â chleifion | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau |

Atodiad 2


## Profiad cleifion

Mae'r siartiau canlynol yn cyflwyno darlun o farn cleifion ar y broses arlwyo, maeth a chymorth amser bwyd yn y pedwar safle a adolygwyd. Caiff y rhain eu cymharu ag ymateb Cymru gyfan. Penderfynwyd cynnwys y siartiau hyn yn yr adroddiad hwn gan eu bod yn:


- cyflwyno canlyniadau gwahanol ar draws y pedwar safle BAI Powys a adolygwyd;
- cyferbynnu â chanlyniadau arolwg Cymru gyfan; neu eu bod yn
- feysydd sy'n haeddu sylw arbennig.

Gellir darparu mwy o ddata ar arolwg y cleifion i'r BAI yn ôl y gofyn.


**Ffigur 10**




**Ffigur 11**





**Ffigur 12**




**Ffigur 13**





**Ffigur 14**




**Ffigur 15**





**Ffigur 16**




**Ffigur 17**





**Ffigur 18**




**Ffigur 19**





**Ffigur 20**




**Ffigur 21**





**Ffigur 22**




**Ffigur 23**





**Ffigur 24**




**Ffigur 25**





**Ffigur 26**



**Ffigur 27**




**Ffigur 28**



Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk